



NODYN BRIFFIO

Hawliau Protest dan Fygythiad: Bil Trosedd a Phlismaona

Gan: Cytûn — Eglwys Ynghyd yng Nghymru
Dyddiad: Mawrth 2026
Cynulleidfafa: Cymunedau ffydd a dinasyddion ymroddgar ledled Cymru
Gweithredu: **Ysgrifennwch at eich AS San Steffan cyn 14 Ebrill 2026**

Crynodeb

Mae Bil Trosedd a Phlismaona Llywodraeth y DU yn cynnwys cymal 'amhariad cronnus' newydd a allai ganiatáu i'r heddlu gyfyngu ar brotestiadau heddychlon yn seiliedig ar ddigwyddiadau cynharach, heb unrhyw gysylltiad â hwy, yn yr un ardal. Mae arweinwyr ffydd ar draws Prydain — gan gynnwys Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, Dr Cynan Llwyd — wedi ymuno â chlymblaid ryngryfydol fawr yn galw ar Aelodau Seneddol i'w ddileu cyn iddo ddod yn gyfraith. Cynhelir pleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ar 14 Ebrill 2026.

1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL

Cyflwynwyd Bil Trosedd a Phlismaona i'r Senedd ym mis Chwefror 2025. Ochr yn ochr â mesurau i fynd i'r afael â throseddau cyllyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'n cynnwys darpariaethau sy'n peri bygythiad difrifol i hawl protest heddychlon yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Bil wedi pasio Tŷ'r Arglwyddi ac yn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin ar gyfer pleidlais allweddol ar 14 Ebrill 2026.

Nid yw'r Bil hwn yn sefyll ar ei ben ei hun. Mae Deddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd 2022 a Deddf Trefn Gyhoeddus 2023 eisoes wedi cyfyngu'n sylweddol ar hawliau protest, a rhybuddiodd y Pwyllgor Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol y gallai hyn gael 'effaith ataliol' ar gyfranogiad democrataidd. Mae'r Bil presennol yn ychwanegu cyfyngiadau pellach at fframwaith sydd eisoes wedi'i dynhau.

2. Y CYMAL AMHARIAD CRONNUS

Byddai Gwelliant 372 yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu, wrth benderfynu a ddylid gosod amodau ar brotestiad, ystyried 'amhariad cronnus' o brotestiadau blaenorol yn yr un ardal — waeth a oedd y brotestiadau hynny wedi'u trefnu gan yr un bobl neu'n ymwneud â'r un achos.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi mynegi pryderon difrifol am y cymal:

- Nid oes diffiniad o 'gronrus' nac unrhyw amserlen benodol.
- Nid oes diffiniad o 'ardal', sy'n caniatáu i barthau daearyddol mawr gael eu heffeithio.
- Byddai protestiadau ar faterion cwbl wahanol gan bobl wahanol yn cyfrannu at y cyfanswm cronrus.
- Byddai'r cymal yn effeithio'n anghymesur ar ddigwyddiadau rheolaidd, gwynosau wythnosol a phrotestiadau parhaus.

Cafodd fersiwn blaenorol o'r ddarpariaeth hon ei chyflwyno drwy ddeddfwriaeth eilradd — a'i diddymu gan y llysoedd yn dilyn adolygiad barnwrol. Mae'r Llywodraeth bellach yn ceisio ei hailgyflwyno drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

3. YMATEB Y GYMUNED FFYDD

Mae Cytûn — Eglwysi Ynghyd yng Nghymru — wedi ymuno â chlymblaid ryngryfydol fawr yn gwrthwynebu'r darpariaethau hyn. Bu Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, ymhlith llofnodwyr llythyr ar y cyd i'r Times ac at Aelodau Seneddol cyn y bleidlais.

“Mae protest heddychlon bob amser wedi bod yn rhan o'r modd y mae cymdeithas yn ceisio cyfiawnder a newid. I lawer o Gristnogion, mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'n galwad fel dinasyddion — i weithredu, yn unigol a thrwy ein heglwysi, ar faterion o bwysigrwydd cyhoeddus. Mae'r cynnig hwn mewn perygl o fynd yn rhy bell drwy gyfyngu ar brotestio nid oherwydd yr hyn y mae pobl yn ei wneud, ond oherwydd yr hyn y gallai eraill fod wedi'i wneud o'u blaenau.”

— Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol, Cytûn

Mae'r ymateb hwn wedi'i wreiddio nid mewn pleidgarwch ond mewn argyhoeddiad dwfn fod y rhyddid i brotestio'n heddychlon yn rhan annatod o ddemocratiaeth iach — ac o'r alwad Gristnogol i geisio cyfiawnder a lles cyffredin.

4. YSGRIFENNWCH AT EICH AELOD SENEDDOL SAN STEFFAN

Gweithredwch cyn 14 Ebrill 2026

Mae gan bob AS etholaeth i'w chynrychioli. Mae ysgrifennu at eich un chi yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol y gall unigolyn ddylanwadu ar ddeddfwriaeth — ac mae'n cymryd ychydig funudau yn unig.

Cam 1 — Darganfod eich AS

Ewch i members.parliament.uk/FindYourMP a rhwch eich cod post. Mae gan bob cartref yng Nghymru AS etholedig yn uniongyrchol yn San Steffan.

Cam 2 — Cysylltu â'ch AS

- **Drwy e-bost:** drwy wefan y Senedd, neu yn www.writetothem.com
- **Drwy'r post:** [Enw] AS, Tŷ'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA — dim angen stamp.
- **Yn bersonol:** cysylltwch â swyddfa eich AS i fynychu clinig etholaeth.

Cam 3 — Beth i'w ddweud

Yn eich geiriau eich hun, gallech:

- Cyflwyno eich hun fel etholwr ac aelod o gymuned ffydd.
- Mynegi pryder am Welliant 372 — y cymal amhariad cronnus.
- Gofyn i'ch AS bleidleisio yn ei erbyn, neu gefnogi gwelliannau i'w ddileu.
- Gofyn am ymateb yn nodi eu safbwynt.

Rhagor o Wybodaeth

Erthygl lawn: www.cytun.co.uk/hawliau-protest-dan-fygythiad

Briff Llyfrgell y Cyffredin am y Bil: commonslibrary.parliament.uk